



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Gorffennaf 2011

Annwyl Gyfaill,

Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran polisi ynni wedi'u hamlinellu yn y ddogfen "Chwyldro Carbon Isel" sy'n disgrifio'r posibilïadau yng Nghymru o ran ynni adnewyddadwy cynaliadwy hyd at 2020/2025. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r uchelgeisiau hyn, ac i hybu bob math o ynni adnewyddadwy, a gwynt ar y tir yw'r dechnoleg fwyaf ymarferol ar hyn o bryd.

O fewn yr uchelgeisiau a bennir yn "Chwyldro Carbon Isel", mae cyfeiriad penodol at y cyfraniad y gall ynni gwynt ar y tir ei wneud yng Nghymru, sydd â'r potensial yn ein barn ni o ddarparu 2 gigawat o gapasiti. Mae'r ffigurau hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer diwygio Polisi Cynllunio Cymru a luniwyd ym mis Chwefror eleni. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys gwerthoedd Nodyn Cyngor Technegol 8(TAN), ac mae'r ddwy ddogfen yn ceisio hwyluso'r broses o ryddhau yr allbwn ynni adnewyddadwy posibl yng Nghymru.

Swyddogaeth bwysig TAN 8 felly yw cyfyngu ar dwf ffermydd gwynt mawr mewn rhannau eraill o Gymru. Mae angen inni sicrhau hefyd fod datblygiad y ffermydd gwynt *o fewn* yr Ardaloedd Chwilio Strategol yn gymesur ac yn gytbwys ag anghenion datblygiadau eraill yn yr ardaloedd hyn. Ein hagwedd yn TAN 8 yw cyfyngu ar ddatblygu ffermydd gwynt mawr i'r ardaloedd yng Nghymru a gafodd eu hasesu'n annibynnol ac a welwyd eu bod yn fwyaf addas – yr Ardaloedd Chwilio Strategol (SSAs) yn TAN 8. Hefyd, ni ddylai'r ffermydd gwynt ddatblygu yn y fath fodd fel bod yn rhaid cael datblygiadau eraill a fyddai'n wrthwynebus i'r safbwyntiau polisi a amlinellir yn TAN 8, er enghraifft ar atgyfnerthu'r rhwydwaith trosglwyddo.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau'n hollol ymrwymedig i'w pholisïau cynllunio sydd wedi eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8 ac mae'r rhain, ynghyd â'r llythyr egluro polisi ar faterion cludo dyddiedig 1 Ebrill 2009, gan y Prif Gynllunyydd, yn pennu fframwaith y polisi cynllunio yng Nghymru.

Yng ngoleuni'r sylw diweddar ar y cyfryngau, teimlais y byddai o gymorth i ysgrifennu at randdeiliaid i esbonio mwy ar **uchafswm** y capasiti gosod ar gyfer ynni gwynt ar y tir o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol a nodwyd yn TAN 8 yn 2005.

Roedd y potensial a amcangyfrifwyd yn Natganiad Polisi Ynni y Chwyldro Carbon Isel yn seiliedig ar **uchafswm** y capasiti a ystyriwyd yn briodol gennym ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol yn TAN 8 yn 2005. Cafodd uchafswm capasiti yr Ardaloedd Chwilio Strategol fel y darparwyd ar eu cyfer ac y cyfeiriwyd atynt yn TAN 8 eu hasesu gan Garrad Hassan yr ymgynghorwyr annibynnol, ac mae yn darparu ar gyfer bron i 1700 megawat o ynni gwynt ar y tir ar draws ein holl Ardaloedd Chwilio Strategol. Rhagwelir y bydd y 300MW sy'n weddill yn dod o gyfuniad o ddatblygiadau o dan 25MW, safleoedd tir llwyd yn ogystal â chynlluniau lleol a chymunedol a chyfraniad gan ficrogynhyrchu. Rydym wedi ymrwmo o hyd i gyflawni'r potensial hwn.

I'w gwneud yn haws, yr uchafswm capasiti a nodwyd gan Garrad Hassan ar gyfer pob Ardal Chwilio Strategol yw: SSA A 212MW; SSA B 430MW; SSA C 98MW; SSA D 212MW; SSA E 152MW; SSA F 430MW a SSA G 132MW.

Roedd TAN 8 yn cydnabod yn llawn bod angen atgyfnerthu y rhwydwaith trosglwyddo yn y Canolbarth cyn dod â chapasiti cynhyrchu ychwanegol i'r ardal, a hefyd ddarparu rhwydwaith cryfach mwy dibynadwy i ddefnyddwyr ynni. Roedd TAN 8 yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru fod y cysylltiadau o'r tyrbinau unigol i'r is-orsaf "i fod trwy geblau tanddaearol". Mae TAN 8 yn nodi y byddai unrhyw gysylltiad o is-orsaf i bwynt agosaf y rhwydwaith ddsbarthu trwy "system 3 gwifren safonol ar bolion pren neu trwy wifrau tanddaearol". Dyma safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd, a chaiff ei gadarnhau yn yr hyn sy'n cael ei nodi yn Nhrywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru yn 2008, a'r Datganiad Polisi Ynni yn 2010. Ar yr amod bod y datblygiad wedi'i gyfyngu i'r uchafswm capasiti a nodwyd uchod, nid ydym yn credu bod angen y seilwaith mawr, hynod amlwg, foltedd uchel ar gyfer y rhwydwaith grid a'r is-orsaf gysylltiedig fel sy'n cael ei gynnig yn y Canolbarth. Ble mae angen grid newydd, rydym yn disgwyl i'r cwmni grid a'r rheolydd sicrhau ei fod wedi'i leoli, ei ddylunio a'i osod mor sensitif â phosib, gan ddefnyddio'r technegau priodol, gan gynnwys technegau tanddaearol.

Fe wyddoch fod Llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy, i'w hystyried gan y Senedd, fydd yn brif sylfaen ar gyfer penderfyniadau gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ar brosiectau dros y trothwy datganoledig o 50MW yng Nghymru. Er hynny, rydym yn disgwyl i bawb sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, gan gynnwys y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd, i gydnabod ein polisi gofodol benodol sydd wedi'i amlinellu yn TAN 8 ac i barchu'r ffaith fod gan yr Ardaloedd Chwilio Strategol gapasiti cyfyngedig o ran yr amgylchedd, ac na ddylai'r allbwn fod yn fwy na'r lefelau uchaf a aseswyd yn 2005 ac sy'n cael eu rhestru uchod.

Hoffwn eich atgoffa, o ran y cydsyniadau hynny sy'n faterion wedi'u datganoli yng Nghymru, fod angen ystyried polisi Llywodraeth Cymru fel y brif sail wrth i awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol, ac mae yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuon yn y dyfodol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio o dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref ar brosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni yng Nghymru (ar wahân i rai gosodiadau ynni penodol), y fframwaith polisi cynllunio pwysicaf yw cynllun datblygu mabwysiedig yr awdurdod cynllunio lleol, ac os yn fwy diweddar, Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8.

Bydd ein lles yn y dyfodol, yn faterol ac yn gymdeithasol, yn ddibynnol ar gael cyflenwadau digonol o ynni rhad-ar-garbon fforddiadwy. Mae'r symudiad hwn i'r economi rhad-ar-garbon yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad fel Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy. O'i wneud yn llwyddiannus, bydd yn gwella ein lles economaidd, yn gwella'r amgylchedd ac yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol o bwys megis tlodi tanwydd, ac rydym yn bwriadu cydweithio â'n prif bartneriaid er mwyn cyflawni hyn.



John Griffiths AM

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy